Community Housing Cymru

# Cyhoeddiad Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

## 19 Rhagfyr 2023


Cyflwyniad

Penawdau allweddol

Cyhoeddiadau allweddol ar gyfer cymdeithasau tai

- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy
- Atal digartrefedd a chaledi ariannol
  - Digartrefedd a chymorth tai
  - Cymdeithasau tai fel darparwyr gofal cymdeithasol
  - Cymorth ariannol i aelwydydd
- Datgarboneiddio
- Diogelwch adeiladau

Cyhoeddiadau eraill am gyllid

- Llywodraeth Leol

Ymateb CHC

Camau nesaf

# Cyflwyniad

Heddiw, 19 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2024/250  gyda'r teitl "Cyllideb i ddiogelu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i chi".

Mae'r gyllideb ddrafft yn cyflwyno dewisiadau gwariant Llywodraeth Cymru ar adeg pan fo effeithiau chwyddiant wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn grym gwario cyhoeddus. Yn ei rhagolwg i'r gyllideb ddrafft, dywed y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth  Leol fod "cyfanswm cyllideb Cymru yn werth £1.3 biliwn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei gosod yn 2021."

Mae toriad ym mhob adran llywodraeth, heblaw'r GIG. Mewn sefyllfa o doriadau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus hanfodol eraill, a thoriad sylweddol i'r portffolio Newid Hinsawdd, cafodd y buddsoddiad mewn tai ac adfywio ei ddiogelu i raddau helaeth. Rhoddir manylion pellach isod.

# Penawdau allweddol

Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi amlinellu cyhoeddiadau cyllid newydd sy'n cyflawni'r setliad aml-flwyddyn ac yn dyrannu cyfanswm o £1bn ar gyfer blaenoriaethau tai (rhwng 2022-25). Y penawdau gwariant allweddol o'r ddrafft gyllideb yw:

- £325m Grant Tai Cymdeithasol
- £167m Grant Cymorth Tai
- £48m ar gyfer y Grant Atal Digartrefedd
- £37m ar gyfer cyfalaf Diogelwch Adeiladau wedi ei ailbroffilio
- £450m o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer y GIG
- Cyfanswm cynnydd o 3.1% ar gyfer awdurdodau lleol. Caiff y dyraniadau manwl eu cyhoeddi yfory
- Cadw'r Grant Cymorth Dewisol ar £38.5m.

# Cyhoeddiadau allweddol ar gyfer cymdeithasau tai

**Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy**

Mae'r gyllideb yn cadw'r setliad aml-flwyddyn Grant Tai Cymdeithasol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2022-23, gyda £365m wedi ei ddyrannu ar gyfer 2024-25.

Mae CHC yn croesawu'r ymrwymiad i barhau i adeiladu'r cartrefi fforddiadwy carbon isel newydd ar rent cymdeithasol y mae gan bobl yng Nghymru gymaint o'u hangen. Er y gwyntoedd croes sylweddol sy'n wynebu cymdeithasau tai, nid yw'r ymrwymiad i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy wedi lleihau.

Mae CHC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n haelodau i ddatblygu datrysiadau diriaethol i ddatgloi rhwystrau systemig i ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio ymagwedd ddiwygiedig at Unnos tebyg i wella'r gadwyn cyflenwi.

Bydd y rhaglen Cartrefi Gwag yn parhau am flwyddyn ychwanegol, gan gyflawni'r ymrwymiad i fuddsoddi hyd at £50m dros gyfnod y rhaglen i ddod â 2,000 o gartrefi yn ôl i ddefnydd.

## Atal digartrefedd a chaledi ariannol

### Digartrefedd a chymorth tai

Mae'r Grant Cymorth Tai wedi parhau yn ei unfan ar £167m. Nid yw'r gyllideb wedi cynyddu yn unol â chwyddiant. Felly mae gwerth y Grant Cymorth Tai wedi gostwng mewn gwir dermau (setliad arian gwastad). Canfu ein ymchwil gyda Cymorth Cymru, os na fyddai cynnydd mewn cyllid, fod 77% o ddarparwyr cymorth yn debygol o ostwng capasiti yn eu gwasanaethau, 40% yn debygol o roi contractau presennol yn ôl a 67% yn debygol o beidio cynnig am gontractau newydd neu wedi eu aildendro.

Bu cynnydd o £2m yn y Grant Atal Digartrefedd, sy'n ariannu rhai prosiectau cenedlaethol. Cafodd hyn ei ostwng o gynnydd blaenorol o £5m yn y dyraniadau dangosol ac mae'n golygu fod cyllideb y Grant Atal Digartrefedd yn awr yn £48m.

Felly mae gan llinell y gyllideb ar gyfer y Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd gyfanswm o £215m. Byddwn yn parhau i ymgyrchu a chyflwyno'r achos yn yr wythnosau nesaf dros gynyddu cyllid y Grant Cymorth Tai yn y Gyllideb Derfynol.

### Cymdeithasau tai fel darparwyr gofal cymdeithasol

Cafodd setliad creiddiol llywodraeth leol, sy'n ariannu gofal cymdeithasol, ei gynnal ar y cynnydd a fwriadwyd o 3.1% rhwng 2023-24 a 2024-25.

Mae'r gyllideb yn amlinellu £11m wedi ei 'ailflaenoriaethu o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol a fydd yn arwain at effeithiau ar yr awdurdodau lleol a phartneriaid gofal cymdeithasol'. Byddwn yn edrych i ddeall beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer cymdeithasau tai.

Cafodd y Gronfa Gofal Integredig (a gaiff yn awr ei dosbarthu drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Tai â Gofal) ei chadw ar lefel arian gwastad o £60.5m.

Deallwn fod y gyllideb Grant Addasiadau Ffisegol yn parhau o amgylch ei lefel gyfredol, a chaiff llythyrau dangosol eu rhannu yn y dyfodol agos gyda chymdeithasau tai sy'n derbyn y grant hwnnw. Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarch pwysau cyfredol ar gyllidebau addasiadau ar draws y sector.

Dywed Llywodraeth Cymru yn ei chyllideb 'hyd yn oed gyda'r cyllid ychwanegol hwn, bydd 2024-25 yn dal yn flwyddyn anodd i'r byrddau iechyd a gallent wynebu penderfyniadau eithriadol o anodd i reoli eu cyllidebau'.

### Cymorth ariannol i aelwydydd

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys y cyhoeddiadau dilynol i gadw cymorth ar gyfer y rhai y mae'r argyfwng costau byw wedi taro arnynt.

- Cadw'r Gronfa Cymorth Dewisol ar £38.5m
- Diogelu cefnogaeth i gwasanaethau cyngor a'r gyllideb ar gyfer y Cronfa Cyngor Sengl
- Cadw £35m ar gyfer y Rhaglen Tlodi Tanwydd
- Cadw £35m ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Dengys adroddiad Methu Dod â Deupen Llinyn Ynghyd fod yr argyfwng parhaus mewn costau byw yn dal i daro tenantiaid cymdeithasol yn galed. Disgwylir y bydd costau byw yn parhau'n uchel, ar adeg pan gafodd help blaenorol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar wedd y cynllun cymorth tanwydd a'r cynllun gostwng biliau ynni ei ddileu, gan olygu y bydd aelwydydd yn derbyn llai o gymorth y gaeaf hwn. Bydd un ym mhob pedwar o'r aelwydydd tlotaf yn wynebu biliau ynni yn cynyddu gan fwy na £100 y gaeaf hwn.

Mae'r adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cronfeydd argyfwng presennol a sicrhau bod llwybrau cymorth yn hygyrch ac wedi eu targedu at y rhai sydd fwyaf o angen cymorth. Er bod y cyhoeddiadau hyn yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu'r darpariaethau presennol sydd yn eu lle i gefnogi tenantiaid bregus, mae angen mwy o gymorth i helpu tenantiaid na all ddod â deupen llinyn ynghyd ar sail ddyddiol.

Byddwn yn parhau ein gwaith gyda'n chwaer ffederasiynau i alw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer yr aelwydydd mwyaf bregus.

## Datgarboneiddio

Mae buddsoddiad cyfalaf o £1.8bn mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, mae chwyddiant uchel wedi effeithio ar gynlluniau ac felly bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth ofalus i ba weithgaredd y gellir ei ddiogelu o fewn ei chyllidebau refeniw cyfyngedig. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r £70m oedd wedi ei neilltuo'n flaenorol ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio ar gyfer 2024/25.

Mae'r sector tai cymdeithasol yn dal i aros penderfyniad ar y dull hirdymor o ariannu SATC 2023. Rydym angen cynllun wedi'i gostio'n llawn a gydag amserlen a strategaeth y gellir eu cyflawni sy'n galluogi cadw buddsoddiad yng Nghymru i gefnogi'r economi leol.

## Diogelwch adeiladau

Roedd Llywodraeth Cymru yn flaenorol wedi ymrwymo £165m i ddiogelwch adeiladau yn 2024-25. Mae cyllideb ddrafft 2024/25 yn amlinellu'r bwriad i ddiwygio proffil y gyllideb arfaethedig ar gyfer y gronfa diogelwch adeiladau, drwy ryddhau £37m o gyfalaf yn 2024-25 i symud i refeniw. Mae'r naratif drafft yn dweud:

"*Mae gennym lwybr at waith adfer ar gyfer pob adeilad trwy Gronfa Diogelwch Adeiladau Cymru. Gall yr amserlen ar gyfer y gwaith cymhleth hwn fod yn hir felly mae'r proffil diwygiedig – sef rhyddhau cyfalaf o £37m yn 2024-25 ar gyfer newid i refeniw – yn sicrhau fod gennym y swm cywir o arian ym mhob blwyddyn i dalu cost gwaith wedi'i gwblhau".*

## Cyhoeddiadau eraill am gyllid

**Llywodraeth Cymru**

Mae'r gyllideb yn diogelu setliad creiddiol llywodraeth leol drwy gadw'r cynnydd arfaethedig o 3.1% rhwng 2023-24 a 2024-25. Mae hyn yn anelu i ddiogelu gwasanaethau creiddiol awdurdodau lleol cyn belled ag sy'n bosibl.

## Ymateb CHC

Mae CHC wedi cyhoeddi'r datganiad dilynol i'r cyfryngau gan Stuart Ropke, Prif Weithredwr:

"*Sylweddolwn fod cyllideb ddrafft heddiw yn newyddion heriol i'r holl wasanaethau cyhoeddus y mae pobl Cymru yn dibynnu arnynt.*

*"Os ydym eisiau gosod llwybr cynaliadwy allan o'r argyfwng tai, mae'n hollol hanfodol y gallwn barhau i adeiladu cartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl Cymru. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru yn amlwg wedi cydnabod hyn drwy ddiogelu'r Grant Tai Cymdeithasol yng nghyllideb ddrafft heddiw. Cymdeithasau tai Cymru sy'n adeiladu 70% o gartrefi cymdeithasol ar hyn o bryd a byddwn yn medru parhau â'r cynnydd hwn am flwyddyn arall.*

*"Fodd bynnag, nid yw'n ddigon dim ond adeiladu'r cartrefi diogel, cynnes a fforddiadwy y mae ein cymunedau eu hangen.*

*"Cafodd y Grant Cymorth Tai, sef y prif ddull o atal digartrefedd a chefnogi byw annibynnol, ei rewi. Mewn gwirionedd, mae setliad arian gwastad yn doriad mewn gwir dermau. Dengys ein hymchwil pe bai rhewi, fod mwy na thri-chwarter y darparwyr gwasanaeth sy'n dibynnu ar y Grant Cymorth Tai yn debygol o ostwng capasiti – gan olygu na fedrant gyrraedd cynifer o bobl sydd angen cefnogaeth.*

*"Mae 40% o ddarparwyr hefyd yn debygol o roi contractau yn ôl, a 48% yn debygol o ddileu swyddi. Bydd hyn yn effeithio ar rai o'r bobl fwyaf bregus yng Nghymru; y bobl ymroddedig sy'n gweithio i'r sefydliadau hollbwysig hyn a gwasanaethau eraill, fel y GIG, sydd eisoes dan bwysau aruthrol.*

*"Dod â'r argyfwng tai i ben yw y nod a rannwn i gyd. Ond i wneud hyn mae angen i ni greu datrysiad mwy cynaliadwy lle rhoddir blaenoriaeth i fuddsoddiad hirdymor mewn cartrefi newydd a phresennol a gwasanaethau atal a chymorth ar gyfer pobl."*

## Camau nesaf

Yn dilyn y gyllideb ddrafft bydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i sicrhau fod dewisiadau buddsoddi yn y gyllideb derfynol yn rhoi llwybr cynaliadwy allan o'r argyfwng tai.

*I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag emily-jones@chcymru.org.uk os gwelwch yn dda.*